

Y GLUDERAU

Nid yw cefnen Y Gluderau yn cael ei dorri mewn gwirionedd gan unrhyw fwllch hawdd ei groesi. Ond, mae Llwybr yr Offeiriad yn croesi Bwlch y Brecan, llwybr a gymerwyd gan offeiriaid i gyrraedd Nant Peris (sef y Llanberis gwreiddiol) o Abergwyngregyn. Roedd Llwybr y Mwynwyr dros Fwllch Tryfan a heibio Gluder Fach yn caniatáu i ddynion o Ogwen gyrraedd mwyngloddiau copr Cwm Glaslyn a Llydaw ar Yr Wyddfa.

Bwlch Blaen Cwm Idwal SH 642587

Mae'r enw yn dynodi ei leoliad ar *blaen* 'diwedd, pen' Cwm Idwal. Un hen enw yn yr ardal oedd Trigfylchau, er gall yr enw fod yn berthnasol fel enw gwreiddiol Clogwyn y Geifr hefyd. Mae Edward Lhuyd yn ei ddisgrifiadau yn sôn am daith fotanegol (c.1694) '*.... near or one of the Tregvylchau or Treiglfulchau on the north-western side of the Glyder.*'. Fe ystyrid y Gluder Fawr a'r Gluder Fach yn un mynydd ar y pryd.

Yn ei lyfr *A tour through a Part of North Wales* (1798) mae J Evans yn gosod yr enw yn gadarn rhwng Llyn Cŵn a Llyn Idwal. Os enw ar adwyon sydd, yna tri 'tair' + cyf- 'rhagddodiad cryfhaol' + bylchau 'adwyon'. Wrth edrych i fyny'r cwm o Lyn Idwal, byddai wedi edrych fel pe bai tair ffordd i fyny i'r brig; y Twll Du yn y canol llinell ar lethr i fyny i'r chwith ac un arall yn anelu i fyny i'r dde.

Bwlch Caseg Fraith SH 670584

Caseg 'ceffyl benywaidd' + *braith* 'ysmotiog'. Roedd cryn dipyn o 'gredoau' ynglŷn â gwerth neu allu ceffyl dim ond drwy edrych ar eu lliw; er enghraifft, ni ystyriwyd yn dda prynu ceffyl â phedair troed wen.

Bwlch Goleuni SH 697582

Tybed os yw'r term *goleuni* 'yn olau, golau, goleud' yn cyfeirio at y digwyddiad cyffredin o'r disgleirdeb a welir drwy'r bwlch o dan y cymylau. Bwlch Oleuni 1790 Llawysgrifau Penrhyn, mae Thomas Pennant yn cyfeirio at Bwlch Oleuni yn ei lyfr *Tours of Wales*.

Bwlch Melynwyn SH 608611

Melynwyn yw'r term am liw gwyn hufennog, lliw gwellt neu hyd yn oed melyn gwan; gall ei gysylltu â lliw glaswelltau mynydd yn y gaef. Bulchmellonen 1269 Litterie Wallie.

Bwlch Tryfan SH 661589

Y bwlch sy'n gwahanu Tryfan a'r Gluder Fach, mae i'w weld fel enw ar gyfres mapiau AO 6" 1888-1915. Mae'n anodd gwybod pa mor hen yw'r enw hwn.

Bwlch y Brecan SH 625616

Breacan 'llaiin gwlanen fras', a gysylltir â'r Gwyddelig *breac* 'tartan, plaid'; fodd bynnag, yn ei Archeologia Britannica 1707 ysgrifennodd Edward Lhuyd: 'Bryccan, A blanket. [Brec in the language of the upland denotes brith 'mottled']'. Roedd llwybr dros y bwlch wedi ei enwi ar ôl yr offeiriad(au) a fyddai'n gorfod ei groesi, wrth ddod o Abergwyngregyn, i gynnal gwasanaethau yn Nant Peris (y Llanberis gwreiddiol); mae rhywun yn dal i allu gweld Llwybr yr Offeiriad yn y dirwedd heddiw.

Bwlch y Cywion SH 627602

Nid *cywion* 'adar ifanc' ond gair sy'n cyfeirio at un ifanc o unrhyw anifail, ond yn enwedig ebolion. Bwlch-y-cywion 1838 AO.

Bwlch y Ddwy Gluder SH 650581

Yn syml y cyfrwy rhwng y ddwy *chudair*, *cluder* 'pentwr'. Mae hwn yn enw cymharol fodern; oherwydd, o leiaf hyd at ddechrau'r 18fed ganrif. Ar yr AO 6" 1840-80 Bwlch Dwyglydion yw

enw'r nant sy'n arwain i'r De, mae'r enw hwn dal yno ar fapiau 6" 1888-1915; fodd bynnag, ar yr un map fe welir yr enw Bwlch y Ddwy-Glyder yn arwain i lawr y crib yr hyn sydd bellach yn dangos yr enw Y Gribin.

Bwlch y Gwryd/Pen y Gwryd SH 660557

Mae nifer fawr o opsiynau oherwydd y cysylltiadau posibl rhwng yr elfennau sy'n ffurfio'r toponym gwrid/gwryd. Y tebygolrwydd yw bod yr enw yn deillio o liw *gwrid* 'coch, cochlyd; oren'. Mae posibiliadau eraill ar gyfer y toponym yn cynnwys, un sy'n deillio o'r enw personol Gwryd, cysylltiad â *gwryd* 'y wawr'; neu, llygredd posibl *cwr* 'ffin, ymyl, terfyn' + *-id/-yd*? Fel arall, gallai fod cysylltiad ag afon Nant y Gwryd, gan adlewyrchu presenoldeb neu debygrwydd i'r gair *gored* 'trap pysgod'. Er bod llawer o gefnogaeth o hyd i'r gair *gwrhyd* 'lled dyn' a chysylltiad â Cai o'r *chwedlau* *Arthuraidd*, i'r rhai sy'n credu.

Bwlch y Gwyddyl SH 654553

Mae gwyddyl yn ffurf amrywiol y gair *Gwyddel* 'un o Iwerddon'; ond, rhaid ystyried mai ffurf lygredig ar *gwyddwal* 'perthi, anialwch dreiniog'; neu, *gwyddel* 'anialwch' sydd; o'r gair *gwydd* 'anodd, gwyllt, tir heb ei drin'. Yn y gorffennol, mae rhai wedi cyswllt y safle a brwydr chwedlonol.

Bwlch y Marchlyn SH 619615

Wedi ei enwi ar ol y llyn Marchlyn; ond merchlyn oedd un hen enw llygredig(?) y bwlch.